Amgueddfa
Syr Henry Jones
Museum

**Rhif elusen: 245120**

# Amgueddfa Syr Henry Jones
# Prosiect Datblygu Amgueddfeydd
# Ymgynghorydd Cefnogi Datblygu Amgueddfeydd

Y Cwm, Llangernyw, Abergele LL22 8PR

Yn dilyn cyllid gan y Cronfa Treftadaeth, mae Ymddiriedolaeth Amgueddfa Syr Henry Jones yn dymuno penodi gweithiwr proffesiynol â chymwysterau addas i gefnogi Amgueddfa Syr Henry Jones mewn prosiect cynyddu gallu a meithrin gwytnwch i sicrhau ei dyfodol.

Bydd yn waith rhan amser dros gyfnod o ddwy flynedd a bydd yn ymdrin ag amrywiaeth eang o gefnogaeth datblygu amgueddfeydd ar draws achredu, ymchwil, ymgynghori, rheoli gwirfoddolwyr, adrodd a pharatoi ac ysgrifennu ceisiadau pwysig am gyllid.

## Cefndir

Y 'Cwm' – lleoliad yr Amgueddfa, yw cartref plentyndod Syr Henry Jones.
Mae Amgueddfa Syr Henry Jones yn dathlu cyflawniadau Syr Henry Jones ac yn dehongli ei fywyd yng nghyd-destun cymuned wledig Gymreig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Caiff hyn ei gyflawni trwy gasgliadau amgueddfeydd, arddangosfeydd a deunyddiau addysgol.

Mae wedi'i leoli yng nghanol pentref Llangernyw ar yr A548 rhwng Abergele a Llanrwst.

Fel y rhan fwyaf o blant eraill ddiwedd y 19eg Ganrif, gadawodd Henry Jones yr ysgol yn 12 oed ac aeth i weithio. Ond yn wahanol i eraill, cafodd Henry ei annog i astudio. Ac yntau'n gweithio gyda'i dad, crydd y pentref, yn ystod y dydd ac 'yn gweithio gyda'm llyfrau... drwy'r oriau mân a than doriad gwawr,' enillodd ysgoloriaeth i hyfforddi'n athro.

Parhaodd â'i astudiaethau ac yn y pen draw daeth yn Athro Athroniaeth Foesol ym Mhrifysgol Glasgow. Roedd Henry yn athronydd ac yn athro gwych, a dylanwadodd gweithdy'r crydd a bywyd yn ei bentref genedigol yn fawr ar ei waith. Nid anghofiodd ei wreiddiau gwerinol a gweithiodd yn galed i wella'r system addysg yng Nghymru. Ym 1912 cafodd ei urddo'n farchog ac ym 1922 fe'i gwnaed yn Gydymaith Anrhydedd.

Yn dilyn ei farwolaeth ym 1922 sefydlwyd cronfa goffa ac ym 1934 cafodd cartref ei blentyndod, Y Cwm, ei agor fel amgueddfa.

Mae nifer y bobl sy'n ymweld â'r Amgueddfa yn isel ond mae datblygiad diweddar yng ngardd yr Amgueddfa sy'n cael ei thrawsnewid yn fan "Bwyd Bendigedig" wedi rhoi hwb i weithgaredd yn yr Amgueddfa.

## Yr her

Bydd yr amgueddfa'n dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ymhen llai na 10 mlynedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Ymddiriedolaeth yr amgueddfa wedi wynebu heriau o ran recriwtio a chadw gwirfoddolwyr, yn enwedig ymddiriedolwyr â swyddi. Mae effaith Covid a'r argyfwng costau byw, ynghyd â Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n heneiddio, wedi gwaethygu'r broblem, ac mae angen cefnogaeth ar yr Amgueddfa i ailadeiladu ei chapasiti, ei gwytnwch a'i chynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol.

Mae'r heriau sy'n ein hwynebu ni'n gofyn i ni feddwl yn wahanol a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o adfywio'r hyn yr ydym ni'n ei gynnig i gynulleidfaoedd cyfoes mewn ffordd sydd hefyd yn apelio ac sy'n berthnasol i'r gymuned leol. Gwyddom fod stori Syr Henry Jones yn un bwysig ac oesol. Rydym ni am ail-ddychmygu'r stori hon mewn ffyrdd a fydd yn dod â Chymru wledig y 19eg Ganrif yn fyw i gynulleidfaoedd newydd.

**Yr angen**

1. Ar hyn o bryd, mae gan yr Amgueddfa achrediad amgueddfa dros dro, gan fod angen mynd i'r afael â rhai materion yn ymwneud â llywodraethu a rheoli casgliadau. Dyma'r peth cyntaf y bydd yr ymgynghorydd yn mynd i'r afael ag ef, gan gynnwys ffurfio cynllun gwaith canolraddol ac adolygu gofynion rheoli a chadw casgliadau.

2. Mae angen i'r amgueddfa ddod o hyd i ffrydiau incwm mwy amrywiol trwy gyfuniad o weithgarwch masnachol, marchnata a chodi arian er mwyn galluogi'r amgueddfa i gael ei staffio yn fwy rheolaidd. Yn amodol ar gais llwyddiannus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer y Cam Datblygu, bydd angen i'r ymgynghorydd weithio gyda'r amgueddfa i ddiweddaru ac ailwampio siop yr amgueddfa, presenoldeb ar-lein, ffrydiau incwm a phrofiad ymwelwyr a chynhyrchu cynllun busnes 3 blynedd wedi'i ddiweddaru ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

3. Mae angen Ymddiriedolwyr newydd ar yr amgueddfa a bydd deall y rhwystrau i recriwtio Ymddiriedolwyr a chefnogi recriwtio aelodau newydd o'r gymuned i gymryd mwy o ran ym mywyd yr amgueddfa yn rhan o gylch gwaith y swydd hon, a bydd pwyslais ar nodi Ymddiriedolwyr sydd â swyddi.

4. Bydd Ymgynghorydd yr Amgueddfa yn gweithio gyda'r Swyddog Datblygu Amgueddfeydd ac yn cysylltu â Swyddog Amgueddfa Conwy i sicrhau bod y Casgliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel a bod safonau'r amgueddfa'n cael eu bodloni.

## Disgrifiad o'r Prosiect

Diben y prosiect presennol hwn yw gweithio gydag Ymddiriedolwyr Amgueddfa Syr Henry Jones yn rhan o brosiect Cyfnod Datblygu Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn dilyn cael cyllid wedi ei wobrwyo ym mis Gorffennaf 2025.

Disgwylir i'r ymgynghorydd llwyddiannus weithio ochr yn ochr â'r Ymddiriedolwyr i ddatblygu a chyflwyno Cais Prosiect Cyflawni Cronfa Dreftadaeth Cam 2 yn 2027/8, drwy ymgynghori â chymuned Llangernyw a'r cyffiniau.

Bydd yr ymgynghorydd yn arwain ar y canlynol:

Ymgynghori, ymgysylltu a thrafod â'r gymuned ehangach er mwyn deall eu hanghenion, eu dyheadau a'u canfyddiadau o'r amgueddfa mewn partneriaeth â’r tîm ailfrandio/marchnata o https://roweandbear.co.uk/

- Yn gysylltiedig â'r uchod, stori’r brand i ailddychmygu enw a themâu allweddol yr amgueddfa, gan weithio gyda'r gymuned ehangach i nodi ffyrdd o ddiweddaru'r enw, yr hyn fydd ar gael a’r profiad fydd yn cael ei gynnig i ymwelwyr yn yr amgueddfa ar ôl y gwaith ailddatblygu.
- Cynllun busnes 3 blynedd
- Cyfres wedi'i diweddaru o ddogfennaeth Achredu Amgueddfeydd

.

**Gofynion Penodol**

1. Cynnal cyfarfod cychwynnol gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, i gytuno ar Gynllun Cyflawni Prosiect a thrafod cwmpas y briff yn fanwl a mynd i o leiaf 5 cyfarfod interim i drafod cynnydd y prosiect - tua 8 diwrnod i gyd.

2. Cynnal cyfres o o leiaf 3 digwyddiad estyn allan ac ymgysylltu â'r gymuned i gasglu barn aelodau'r gymuned ac ymwelwyr am elfennau ein casgliad sydd bwysicaf iddyn nhw a sut y bydden nhw’n dymuno eu gweld nhw’n cael eu dehongli i ddatblygu eu dealltwriaeth, eu gwybodaeth a'u hymgysylltiad â threftadaeth Llangernyw. Y cyntaf fydd galwad gymunedol mewn partneriaeth â Chasgliad y Werin yn ystod haf 2025 i gasglu copïau o hen luniau ac arteffactau o'r gymuned leol a'u sganio fel eu bod ar gof a chadw. Tua 5 diwrnod.

3. Trefnu a hwyluso cyfarfodydd budd-ddeiliaid gan gynnwys Cyfarfod Ymgynghori’r Busnes â Phrifysgol Bangor sy'n awyddus i gefnogi'r Amgueddfa trwy gael myfyrwyr i wirfoddoli a chael lleoliadau gwaith yn yr Amgueddfa. 2 ddiwrnod.

4. Dros gyfnod o 24 mis, paratoi’r holl ddogfennaeth sydd ei hangen ar gyfer cais Cam 2 i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac unrhyw geisiadau am gyllid cyfatebol cysylltiedig. Tua 30 diwrnod.

5. Diweddaru dogfennaeth achredu berthnasol, a chysylltu â Swyddog Amgueddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Tua 20 diwrnod.

65 o ddiwrnodau i gyd.

**Dewis contractwr addas**

**Mae uchafswm o £24,500 ar gael ar gyfer y prosiect hwn.**

Bydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno i Ymddiriedolwyr Amgueddfa Syr Henry Jones.

**Taliad**

Mae cyfanswm o £10,500 ar gael am y flwyddyn gyntaf am 30 diwrnod. Bydd y dull talu yn cael ei gytuno gyda'r ymgeisydd ar ôl iddo gael ei benodi. Bydd yr ail flwyddyn yn £14,000 am 35 diwrnod o ganlyniad i'r gwaith ychwanegol o greu cais i'r Gronfa Dreftadaeth.

**Dewis**

Mae'n rhaid i gyflenwyr fod wedi cofrestru ar GwerthwchiGymru i wneud cais am y comisiwn hwn.
Rydym ni'n disgwyl i gyflenwyr allu dangos bod ganddyn nhw brofiad rhagorol o ddatblygu prosiectau o'r natur hon, ac yn benodol cynllunio busnes ar gyfer y sector twristiaeth ddiwylliannol.

Dylai ceisiadau gynnwys:

- Datganiad Dull a dull gweithredu
- Profiad perthnasol blaenorol
- Cyllideb lawn gan gynnwys dadansoddiad o gostau yn ôl yr eitem/gweithgaredd
- Enghreifftiau o waith blaenorol

Bydd eich cais yn cael ei asesu yn ôl y meini prawf canlynol:

- Gwerth am arian (30%)
- Datganiad dull a dull gweithredu (20%)
- Enghreifftiau o waith blaenorol (20%)

- Profiad perthnasol blaenorol (30%)

**Cyswllt**

**Dylid anfon cynigion ar e-bost ynghyd â llythyr eglurhaol i;**

**Ymddiriedaeth Syr Henry Jones**

**E-bost: Ysgrifenydd Ymddiriedolaeth**

**Holly.Evans@denbighshire.gov.uk**

Mae copi o adroddiadau ymgynghori’r Amgueddfa a chais y cyfnod datblygu ar gael ar gais.